# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 8

DELIO

*Olynu*

### 74 Personau sy'n gymwys i olynu

(1) Mae person yn gymwys i olynu deiliad y contract os yw'r person hwnnw—

- (a) yn olynydd â blaenoriaeth i ddeiliad y contract neu'n olynydd wrth gefn i ddeiliad y contract, a
- (b) heb ei eithrio gan is-adran (3) na (4).

(2) Ond os oedd deiliad y contract yn olynydd wrth gefn mewn perthynas â'r contract meddiannaeth, nid oes unrhyw berson yn gymwys i'w olynu.

(3) Mae person wedi ei eithrio os nad yw wedi cyrraedd 18 oed ar adeg marwolaeth deiliad y contract.

(4) Mae person wedi ei eithrio os oedd, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â marwolaeth deiliad y contract, yn meddiannu'r annedd neu ran ohoni o dan gontract isfeddiannaeth.

(5) Nid yw person wedi ei eithrio gan is-adran (4)—

- (a) os yw'n olynydd â blaenoriaeth i ddeiliad y contract, neu'n olynydd wrth gefn i ddeiliad y contract sy'n bodloni'r amod aelod o'r teulu yn adran 76(2) oherwydd adran 250(1)(a) neu (b) (priod, partner sifil etc.), a

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 74 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) os daeth y contract isfeddiannaeth yr oedd yn meddiannu'r annedd neu ran ohoni oddi tano i ben cyn marwolaeth deiliad y contract.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 74 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 74 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 74 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 26 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
- s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
- s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
- s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5